# Radio Ceredigion yn tynnu ei Gais i Newid Fformat yn ôl

Mae Radio Ceredigion Limited ('RCL') wedi tynnu ei gais yn ôl yng nghyswllt newid Fformat y drwydded radio masnachol sydd ganddo ar gyfer Ceredigion.

Cafodd y drwydded radio masnachol ar gyfer Ceredigion ei hail-ddyfarnu i RCL ym mis Rhagfyr 2018. Aethpwyd ati i ail-wneud cais am drwydded ar y sail bod gwasanaeth presennol Radio Ceredigion yn cael ei ddisodli gan ailddarllediad o wasanaeth rhanbarthol De Cymru, Nation Radio, pan fydd cyfnod y drwydded newydd yn cychwyn ar 1 Mehefin.

Ar ôl i RCL (yr unig ymgeisydd) sicrhau'r drwydded, penderfynodd ei fod eisiau parhau â'i wasanaeth presennol, Radio Ceredigion, gydag ymrwymiad i ddarparu cynnwys lleol, gan gynnwys newyddion lleol, ar gyfer ardal Ceredigion. Oherwydd ein bod yn ystyried bod y newidiadau yn wahanol iawn i'r rhai a gyflwynwyd gan RCL yn ei gais am y drwydded, aethom ati i gynnal ymgynghoriad pedair wythnos ar gynigion RCL, a ddaeth i ben ar 10 Mai, ac fe gafwyd chwe ymateb.

Fodd bynnag, mae RCL wedi rhoi gwybod i Ofcom ei fod yn dymuno tynnu'r Cais i Newid Fformat yn ôl ac y bydd yn mynd ati i lansio Nation Radio yng Ngheredigion ar 1 Mehefin, yn unol â'r cais gwreiddiol am y drwydded.

Er ein bod ni – fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori – wedi ystyried y byddai cais RCL i barhau i ddarparu cynnwys lleol ar drwydded Ceredigion yn cynyddu ystod y rhaglenni i raddau mwy helaeth nag y byddai'r cynigion arfaethedig yn yr ail-ddyfarniad ym mis Rhagfyr 2018, nid oes gan Ofcom bŵer i fynnu bod newidiadau o'r fath yn cael ei gwneud os nad oes Cais i Newid Fformat. O ystyried bod y Cais i Newid Fformat wedi cael ei dynnu'n ôl, bydd Nation Radio yn dechrau darlledu yn ardal Ceredigion o 1 Mehefin ymlaen ar sail y Fformat a nodwyd pan aethpwyd ati i ail-wneud cais am y drwydded.

Fe wnaethom nodi bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn feirniadol o benderfyniad RCL, naill ai fel Radio Ceredigion neu Nation Radio, i beidio â pharhau â'r ymrwymiad yn y Fformat i ddarparu rhaglenni Cymraeg yn unol â thrwydded bresennol Ceredigion, sy'n dod i ben ar 31 Mai. Yn yr un modd â'r problemau yng nghyswllt darparu cynnwys lleol, o dan y ddeddfwriaeth bresennol sy'n gysylltiedig â thrwyddedu radio masnachol, nid oes gan Ofcom bŵer i orfodi amodau o ran Fformat ar drwyddedai y tu hwnt i'r hyn a gynigiwyd yn ei gais llwyddiannus am drwydded.